

**Cartrefi
Cymunedol
Cymru**



Adroddiad Cynnydd Chwarterol: Cynllun Corfforaethol 2019–2022

Gorffennaf – Medi 2019



Stuart Ropke

Prif Weithredydd

stuart-ropke@chcymru.org.uk

02920 674 800 | @stuart_CHC

Croeso

Dyma'r ail adroddiad cynnydd ar gyfer 2019/2020.

Gan ein bod yn chwe mis cyntaf ein Cynllun Corfforaethol 2019-2022, rydym yn awyddus iawn i ddangos y cynnydd a wnaethom ar y materion y gwnaethoch ddweud wrthym sy'n bwysig i chi.

Rydym wedi parhau i lobio a dylanwadu ar eich rhan, ac rydym yma i'ch cefnogi i fod yn wych i gyflawni ein gweledigaeth i wneud cartref da yn hawl sylfaenol i bawb. I'ch helpu i baratoi ar y dyfodol rydym wedi treulio amser y chwarter hwn yn cynllunio ein cynadleddau poblogaidd yn cynnwys y Gynhadledd Flynyddol ac Un Gynhadledd Fawr.

Rydym hefyd wedi bod yn datblygu ein rhaglen Dyfodol, Alcemi, a byddwn yn rhannu mwy o wybodaeth ar hyn yn y misoedd dilynol.

Mae croeso mawr i chi gysylltu â ni os oes gennych fwy o gwestiynau am yr wybodaeth yn yr adroddiad cynnydd hwn. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ddylanwadu, cysylltu, cefnogi a hysbysu - fel y gallwch chi barhau i fuddsoddi mewn cymunedau a gwella bywydau.

Diolch,

Cipolwg ar fis Gorffennaf – mis Medi 2019

- » Cynnal Cynhadledd Carbon Isel lwyddiannus iawn ym mis Gorffennaf pan lanswyd adroddiad y grŵp ymgynghori annibynnol ar ddatgarboneiddio *'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell'*, gyda'r Gweinidog yn derbyn yr holl argymhellion mewn egwyddor
- » Derbyniodd Julie James AC y cyfan heblaw un o argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy
- » Rydym wedi llwyddo i gael pump lle ar grŵp Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n ystyried cyllido tai fforddiadwy yn y dyfodol, a chawn ein cynrychioli ar y Bwrdd Adolygu Rhaglen gan Stuart Ropke, Prif Weithredydd CHC
- » Rydym wedi ymgysylltu gydag aelodau i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar dlodi tanwydd
- » Rydym wedi sicrhau un peth y gwnaethom gais amdano ym maes llesiant (cynnydd i'r lwfans gwaith), yn ogystal â sicrwydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau y caiff cais arall (alinio taliadau a gaiff eu rheoli gyda hawlydd taliad) ei gyflawni eleni



- » Rydym wedi gwneud gwaith uchelgeisiol i gefnogi aelodau i ostwng nifer achosion dadfeddiannu ac ehangu mynediad i dai cymdeithasol, yn arbennig i aelwydydd digartref
- » Cafodd ein Cynllun Prif Awdurdod Tân ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae'n awr yn rhoi canllawiau cyson a hyfforddiant i dros ddau-draean cymdeithasau tai Cymru
- » Aeth ein Grŵp Cyflenwi Strategol Rheolaeth Tai newydd o nerth i nerth, gan edrych ar faterion yn cynnwys dyraniadau i dai cymdeithasol a gostwng nifer achosion dadfeddiannu
- » Mae ein gwaith ar grŵp gweithredu Llywodraeth Cymru wedi sicrhau newidiadau i'r Ddeddf Rhentu Cartrefi yn cynnwys amser rhybudd ychwanegol cyn gweithredu
- » Rydym wedi cynnal wyth gweminar gyda 145 yn mynychu o 67% o'n haelodau
- » Rydym wedi cynnal nifer o seminarau eleni mewn cysylltiad gyda'n haelodau masnachol, gyda chyfanswm o 78 o bobl o'n haelodau yn mynychu



- » Rydym wedi rhedeg nifer o gyfarfodydd Grwpiau Cyflenwi Strategol yn y Gogledd a'r De. Mewn ymdrech i ehangu mynediad, rydym hefyd wedi paratoi i gynnis presenoldeb ar-lein drwy GoToMeeting
- » Mae nifer o staff newydd wedi ymuno â'r tîm y chwarter hwn yn cynnwys Rhea Stevens, Pennaeth Polisi a Materion Allanol, Angharad Young, Rheolwr Datblygu Busnes, Bryony Haynes, Cymhorthydd Polisi a Materion Allanol a Bethan Proctor, Rheolydd Polisi a Materion Allanol
- » Lansiad llwyddiannus ymgyrch Dyma'r Sector Tai i ddenu mwy o sgiliau i'r sector, a dathlu'r gweithlu presennol



Themâu:

- 1 Dylanwadu ar amgylchedd gweithredu ein haelodau
- 2 Paratoi aelodau ar gyfer y dyfodol
- 3 Rhedeg sefydliad gwych i aelodau
- 4 Dweud stori ein sector

Adolygiad o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ① ②

Dechreuodd y chwarter gyda datganiad gan Julie James AC, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, lle derbyniodd y cyfan heblaw un o argymhellion yr [Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy](#). Yn dilyn y datganiad hwn, rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru wrth iddynt gyflenwi'r argymhellion.

Buom yn llwyddiannus yn sicrhau pump lle ar grŵp Llywodraeth Cymru sydd wrthi'n ystyried cyllido tai fforddiadwy yn y dyfodol a bydd Stuart yn ein cynrychioli ar Fwrdd Adolygu'r Rhaglen. Cafodd ein gwaith ar yr Adolygiad ei brif ffrydio i waith cyfredol y tîm Polisi a Materion Allanol; byddaf i yn arwain gwaith am gyllido tai fforddiadwy a bydd Rhea Stevens, fy nghyd Bennaeth Polisi a Materion Allanol, yn arwain ar fforddiadwyedd a rhenti.



Aaron Hill
Pennaeth Polisi a Materion Allanol
aaron-hill@chcymru.org.uk
02920 674 820 | @aaronchc

Cartrefi'r Dyfodol ① ②

Fe wnaethom gynnal Cynhadledd Carbon Lwyddiannus ym mis Gorffennaf pan lanswyd adroddiad y grŵp ymgynghori annibynnol 'Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell'. Mae'r adroddiad yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ôl-osod datgarboneiddio preswyl a datblygu adeiladau newydd. Derbyniodd y Gweinidog yr holl argymhellion mewn egwyddor, gan gydnabod y gwaith modelu a dichonolrwydd sy'n dal i fod angen ei gwblhau. Yn y cyfamser, rydym yn ymchwilio sut gall y sector weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau hyn drwy Grŵp Cyflenwi Strategol Cartrefi'r Dyfodol CHC.

Yn dilyn argymhellion yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth am Ddulliau Modern o Adeiladu. Mae gan y strategaeth oblygiadau ar gyfer gwaith tu hwnt i'r Rhaglen Tai Arloesol bresennol a chysylltodd CHC gydag aelodau ar draws y sector i lywio'r strategaeth.

Rydym hefyd wedi cysylltu ag aelodau i ymateb i Ymchwiliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar dlodi tanwydd, gan amlygu cynnydd cymdeithasau tai a'r gefnogaeth barhaus sydd ei hangen gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi tanwydd.



Hayley MacNamara
Rheolydd Polisi a Rhaglenni
hayley-macnamara@chcymru.org.uk
02920 674 819 | @hayley_chc

Llesiant 1 2

Fe wnaeth ein gwaith i sicrhau'r **Chwe Chais** barhau dros yr haf, wrth i ni agosáu at osod cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y flwyddyn nesaf a phosibilrwydd Etholiad Cyffredinol yr Hydref/Gaeaf hwn. Rydym yn falch i fod wedi sicrhau un cais (cynnydd i'r lwfans gwaith) a sicrwydd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau y caiff un arall (alinio taliadau a reolir gyda hawlydd taliadau) ei gyflawni eleni.

Mae perthynas CHC gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i ddatblygu. Rydym yn ymwneud ar bob lefel wrth ddylunio'r broses ymfudo a reolir ar gyfer y Credyd Cynhwysol a materion gweithredol eraill yn cynnwys sicrhau gwelliannau i'r Porth Landlordiaid a phrosesau eraill.

Ym mis Medi daeth ein prosiect ymchwil presennol ar effaith Credyd Cynhwysol i ben. Mae hyn wedi sicrhau meincnodi ar gyfer y sector ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn ogystal ag adroddiad terfynol gydag argymhellion i'r llywodraeth (a gaiff ei gyhoeddi yn y dyfodol agos). Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cyflenwi Strategol Llesiant i gynllunio cam nesaf ein monitro, yn cynnwys parhau i feincnodi, a chanolbwyntio ar yr effaith ar denantiaid.

Deddf Rhent Cartrefi 1 2

Mae gweithredu'r Deddf Rhentu Cartrefi yn parhau, gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol yn anelu iddi ddod i rym cyn mis Ebrill 2021. Mae ein gwaith ar grŵp gweithredu Llywodraeth Cymru wedi sicrhau newidiadau yn cynnwys amser rhybudd ychwanegol cyn gweithredu.

Cyn i'r Ddeddf ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gostwng nifer yr achosion dadfeddiannu dim bai yn y sector rhent preifat drwy newidiadau i Adran 173 y Ddeddf. Er fod hyn wedi'i anelu at y sector rhent preifat, bydd y newidiadau yn effeithio ar rai tenantiaethau a gynigir gan gymdeithasau tai; rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth o'r canlyniadau anfwriadol, yn ogystal ag ymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar y mater.

Tai â chymorth a digartefedd 1 2

Yn ystod yr haf cafwyd y gyhoeddiad am gyllid Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, yn dilyn lobio gan CHC, ac rydym yn hynod falch i weld nifer o gymdeithasau tai yn darparu prosiectau fel canlyniad.

Mae CHC yn parhau i chwarae rhan allweddol yng Ngrŵp Gweithredu y Gweinidog ar Ddigartrefedd sy'n cyflwyno argymhellion ar sut i ostwng a dod â digartrefedd yng Nghymru i ben yn y tymor byr a'r hirdymor.

Rydym wedi gwneud gwaith uchelgeisiol i gefnogi aelodau i ostwng nifer yr achosion o ddadfeddiannu ac ehangu mynediad i dai cymdeithasol, yn arbennig mewn aelwydydd digartref. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau hyfforddiant i sefydlu arferion a hysbyswyd gan drawma a ffrwd gwaith yn edrych ar atal ôl-ddyledion rhent, yn arbennig oherwydd Credyd Cynhwysol.

Rydym yn parhau'n aelod allweddol o grŵp Llywodraeth Cymru sy'n cynorthwyo gyda chynllunio'r Grant Cymorth Tai newydd fydd yn disodli Cefnogi Pobl a rhai elfennau o gyllid atal digartrefedd o fis Ebrill 2020.



Will Atkinson
Rheolydd Polisi a Rhaglenni
will-atkinson@chcymru.org.uk
02920 674 815 | @willa_chc

Diogelwch Adeiladau a Thenantiaid 1 2 3

Dros yr haf, cafodd ein [Cynllun Prif Awdurdod Tân](#) ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac mae'n awr yn cyflenwi canllawiau cyson a hyfforddiant i dros ddau-draean cymdeithasau tai yng Nghymru, heb ddim cost ychwanegol i aelodau.

Yn dilyn cyhoeddi [Map Ffordd y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladu](#), rydym wedi cyd-gynhyrchu fframwaith i gysylltu â phreswylwyr ar faterion diogelwch, a byddwn yn gweithio gydag aelodau i weithredu hyn yn ystod yr Hydref.

Rydym wedi parhau i lobio Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig am ddatrysiad i'r materion yn ymwneud â drysau tân a gafodd eu cam-werthu gan wneuthurwyr.

Rheolaeth Tai 1 2

Aeth ein Grŵp Cyflenwi Strategol Rheolaeth Tai o nerth i nerth, yn edrych ar faterion yn cynnwys dyraniadau i dai cymdeithasol a gostwng nifer yr achosion o ddadfeddiannu. Mae gan y Grŵp gynllun gwaith uchelgeisiol, yn cynnwys mynd i'r afael â materion eraill yn cynnwys celcian.

Rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Cymorth Cymru i ddarparu hyfforddiant rhad ac am ddim ar amgylcheddau seicolegol wybodus mewn rheolaeth tai, ac rydym yn edrych ar ehangu'r hyfforddiant hwn ymhellach.

Yn yr haf gwelwyd hefyd ddechrau ymchwil i berfformiad Cofrestrï Tai Cyffredin wrth ddyrannu cartrefi cymdeithasol.



Will Atkinson
Rheolydd Polisi a Rhaglenni
will-atkinson@chcymru.org.uk
02920 674 815 | @willa_chc

Cynadleddau a digwyddiadau 2 3

Ym mis Medi fe wnaethom lansio cyfres [newydd o ddigwyddiadau ar gyfer CHC](#). Roedd yn gyffrous i ni lansio ein gweithdai trawsnewid busnes, cyfres o ddigwyddiadau hanner diwrnod a gynlluniwyd i roi'r dulliau a'r sgiliau y mae cynrychiolwyr eu hangen ar gyfer trawsnewid busnes llwyddiannus. Mae'r sesiynau'n rhoi digon o amser ar gyfer trafodaeth, cwestiynau, myfyrio a rhwydweithio.

Yn ein digwyddiad cyntaf, ar 13 Medi, clywodd ein cynrychiolwyr gan ddau siaradwr rhagorol, Sally Meecham, Cyfarwydd y Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn Llywodraeth Cymru, a Paul Matthews, Prif Weithredydd Cyngor Sir Fynwy. Fe wnaethant amlinellu pwysigrwydd sefydlu gweledigaeth glir cyn dechau ar newid sefydliadol.

Mae enghreifftiau o'r adborth gan gynrychiolwyr yn cynnwys:

"Roedd y gweithdy yn ardechog - roedd y ddau siaradwyr yn gwneud i chi feddwl ac es adre gyda llawer o syniadau y gallwn eu gweithredu o fewn y busnes"

"Sesiwn i brocio'r meddwl ddydd Gwener - edrych ymlaen at ddigwyddiadau'r dyfodol. Diolch!"

Cynhelir y gweithdy nesaf ar ['Creu'r Diwylliant Cywir'](#) ddydd Mercher 23 Hydref ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam a byddwn yn clywed gan Neil Almond, Prif Swyddog Gweithredol [91 Untold](#), ymgynghoriaeth newid cadarnhaol a Kit Wilson, Pennaeth Trawsnewid Dŵr Cymru. Mae digwyddiadau ychwanegol yn cynnwys sesiynau ar ['deall anghenion defnyddwyr'](#) a [thechnoleg](#). I archebu lleoedd yn unrhyw un o'r tri digwyddiad sydd ar ôl, [cliciwch yma](#).

YN DOD NESAF:

Cynhadledd Tai Fawr CHC – 10/11 Hydref 2019, Gwesty Metropole, Llandrindod, Powys

Digwyddiadau Trawsnewid Busnes: Gweithdy 2: Creu'r Diwylliant Cywir – 23 Hydref 2019, Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam

Cynhadledd Flynyddol CHC – 21/22 Tachwedd 2019, Gwesty Mercure Holland House, Caerdydd

Digwyddiadau Trawsnewid Busnes: Gweithdy 3: Deall Anghenion Cwsmeriaid a Defnyddwyr, 28 Tachwedd, Rhaeadr Aberdulais, Castell Nedd Neath



Rhian Robinson
Swyddog Digwyddiadau a Busnes
rhian-robinson@chcymru.org.uk
02920 674 814

Hyfforddiant **2** **3**

Hyfforddiant Ymatebol

Bu'r chwarter diwethaf ychydig yn dawelach oherwydd gwyliau'r haf, ond fe wnaethom ddal i gyflenwi ein hyfforddiant ymatebol ar nifer o bynciau yn cynnwys:

- » Cyflwyniad i Gymdeithasau Tai
- » Rheoli a Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Llesiant Cadarnhaol yn y Gweithle
- » Y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- » GDPR Flwyddyn yn Ddiweddarach
- » Atgyweiriadau ar gyfer Staff heb fod yn staff technegol
- » Llythrennedd Carbon ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol

Dalwch i anfon eich ceisiadau ac awgrymiadau am bynciau os gwelwch yn dda! Gwnawn ein gorau glas i gyflawni eich anghenion.

Lesley Smith
Swyddog Dysgu a Datblygu
lesley-smith@chcymru.org.uk
02920 674 809 | @lesley_chc



Hyfforddiant Llywodraethiant

Cyflwynwyd ein cwrs cyntaf Cyflwyniad i Lywodraethiant yn llwyddiannus - gyda 14 o bobl yn bresennol o CCHA, Bron Newydd, Cymdeithas Tai Merthyr Tudful, Rhondda, Tai Calon, V2C ac United Welsh. Mae'n ysbrydoliaeth gweld cynifer o'n haelodau yn edrych ar ddatblygu eu sgiliau i ddod yn aelod o Fwrdd! Roeddem yn falch iawn y cafodd un o'r rhai a fynychodd yr hyfforddiant ei ethol fel Aelod o Fwrdd ers cyflwyno'r cwrs.

Gwrandwch ar yr hyn sydd gan Claire Canning, United Welsh, i'w ddweud am y cwrs yma.



Hyfforddiant Ar-lein

Mae ein llwyfan hyfforddiant ar-lein yn dal yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio'n gyson gan nifer o'n haelodau yn cynnwys Newydd, Rhondda, Dewis Cyntaf, ateb a Tai Ceredigion. **Mae rhestr o'r pynciau a gynigiwn ar gael yma.**

Cadwch eich llygad ar agor gan ein bod yn dymuno gwella a datblygu'r hyfforddiant ar-lein a gynigiwn i gynnwys dull cyfunol yn ogystal â hyfforddiant wyneb i wyneb a'r pecynnau cynefino ar gyfer aelodau newydd o staff.

Swyddi Tai Cymru 2 3 4

Mae Swyddi Tai Cymru yn mynd yn wirioneddol dda. Hyd yma rydym wedi denu dros 63,000 o ddefnyddwyr ac wedi cyfeirio 13,000 o bobl i swyddi yn y sector; mae 7,000 ohonynt wedi lawrlwytho pecynnau swydd.

Mae dros 50% o'n haelodau yn defnyddio'r safle i hysbysebu swyddi a rydym yn falch iawn i gael adborth cadarnhaol yn cynnwys cymdeithasau tai yn llwyddo i recriwtio'n uniongyrchol o'r wefan.

Gobeithiwn y bydd lansio ein hymgyrch **Dyma'r Sector Tai** yn parhau i yrru traffig i'r wefan ac y bydd yn hysbysu pobl o'r tu allan i'r sector am fanteision gweithio mewn tai cymdeithasol.

Gall aelodau hysbysebu ar y safle am cyn lleied â £150 fesul swydd, sy'n cynnwys hysbysebu wedi'i dargedu ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â hysbyseb yn Charity Job Finder, gwefan flaenllaw ar swyddi yn y trydydd sector.

Gall aelodau hefyd fanteisio ar ein cynnig '10% i ffwrdd hysbysebion swydd lluosog'.

I hysbysebu ar Swyddi Tai Cymru anfonwch e-bost at matt@charityjobfinder.co.uk.

Os oes gennych fwy o gwestiynau, anfonwch e-bost ataf os gwelwch yn dda ar angharad-young@chcymru.org.uk.



Angharad Young
Rheolydd Gwasanaethau Aelodau
a Datblygu Busnes
angharad-young@chcymru.org.uk
02920 674 803

Grwpiau Cyflenwi Strategol 1 2 3

Cynhaliwyd nifer o Grwpiau Cyflenwi Strategol y chwarter hwn yn y Gogledd a'r De. Mewn ymdrech i ehangu mynediad, fe wnaethom hefyd barhau i gynnig presenoldeb ar-lein trwy GoToMeeting.

Yn ystod y chwarter hefyd cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Grwpiau Cyflenwi Strategol gydag arweinwyr CHC i ddynodi themâu sy'n gorgyffwrdd y gellid eu hymchwilio yn fwy manwl yn ystod cyfarfodydd ar y cyd dros y misoedd i ddod. Mae'r themâu hyn yn cynnwys gwerth am arian, cynnal tenantiaeth, fforddiadwyedd a dulliau modern o adeiladu. Mae'r rhestr lawn ar gael [yma](#).

Digwyddiad Rhwydweithio Aelodau Bwrdd 1 2 3

Fe wnaethom gynnal digwyddiad rhwydweithio y chwarter hwn lle clywodd aelodau gan Lisa Dobbins, Pennaeth Datgarboneiddio Tai yn Llywodraeth Cymru, ar ddarparu cartrefi fforddiadwy, cysurus a dim carbon ar gyfer tenantiaid. Cafodd aelodau hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar raglen Dyfodol CHC. [Mae digwyddiadau pellach ar y gweill ar gyfer mis Rhagfyr yn y Gogledd a'r De.](#)



Julia Sorribes
Cymhorthydd Gwsanaethau
Aelodau a Datblygu Busnes
julia-sorribes@chcymru.org.uk
02920 674 806

Gweminarau 1 2 3

Cynhaliwyd wyth gweminar yn y chwarter hwn gyda 145 yn mynychu o 67% o'n haelodau. Roedd pynciau'n cynnwys datgarboneiddio, paratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb, canllawiau Yammer ar gyfer aelodau, diweddariad rheoleiddiol ac ymgynghoriad ar ddulliau modern o adeiladu.

Cysylltu â chi drwy bartneriaid masnachol a ddetholwyd yn ofalus 1 2 3

Fe wnaethom gynnal nifer o seminarau eleni mewn cysylltiad â'n haelodau masnachol, yn cynnwys:

- » Lansio fframwaith adeiladu oddi ar y safle ar gyfer tai newydd gyda Chynghrair Caffael Cymru, a fynychwyd gan 45 o bobl o 24 o sefydliadau.
- » Ffug wrandawriad disgyblaeth gyda Capital Law a fynychwyd gan 25 o bobl o 10 o'n haelodau
- » Seminar gyda Capstick ar ddadfeddiannu tenantiaid heb fod â thenantiaethau diogel a fynychwyd gan wyth o bobl o bedwar o'n haelodau



Edwina O'Hart
Cyfarwyddyd Cynorthwyol,
Cyfathrebu a Gwasanaethau Aelodau
edwina-ohart@chcymru.org.uk
02920 674 808 | @edwinaohart

Cyfathrebu 1 2 3

Bu'n chwarter prysur i'n tîm cyfathrebu yn CHC. Mae'r gwaith wedi cynnwys cefnogi'r tîm materion allanol, i gyfathrebu ein prif feysydd polisi, a marchnata ein cynadleddau a hyfforddiant i hybu presenoldeb.

Buom hefyd yn gweithio gyda'r tîm materion allanol i adolygu ein safle ar rai o themâu allweddol fydd yn helpu i ddweud stori'r sector yn fwy effeithlon.

Cynhaliwyd Grŵp Cyflenwi Strategol Cyfathrebu llwyddiannus ddechrau ym mis Medi ac roedd yn wych gweld aelodau o'r Gogledd yn bresennol. Roedd yn ddefnyddiol gweld bod ein heriau cyfathrebu wedi eu halinio ar draws y sector, ac mae'r Grŵp yn rhoi llwyfan da i drafod hyn a rhannu syniadau ac arfer gorau.

Un o uchafbwyntiau'r chwarter oedd lansio Dyma'r Sector Tai (www.thisishousing.wales). Nod yr ymgyrch sector-gyfan hon yw hybu sgiliau i'r sector a dathlu'r bobl wych sy'n gwneud gwahaniaeth bob dydd.

Fe wnaethom weithio'n agos gydag aelodau o'r sector i greu cynnwys ar gyfer y safle ac yn falch iawn i dderbyn dros 60 astudiaeth achos. Diolch i Beverley Flood, Cartrefi Dinas Casnewydd; Kate Griffiths, CCHA; Donna Howells, United Welsh; Alex Jones, Tai Tarian; Louisa Neale, Trivallis; Nia Rolfe, Cadwyn; Leah Thomas, Cadwyn; Helen Ball, Hafod; Lian Rees, Cymdeithas Tai Rhondda; Freya Reynolds-Feeney a Holly McAnoy, Cymdeithas Tai Taf; Ben Black, Bron Afon; Lizzie Conway, Cymoedd i Arfordir; Mark Woods, Matthew Bevan a Martin Edge, Trivallis am eu holl gymorth.

Lansiwyd yr ymgyrch yn ein cynhadledd Adnoddau Dynol a Dysgu & Datblygu ar 26 Medi. O fewn 24 awr roeddem wedi ysgogi dros 8,783 edrychiad tudalen, 211 clic allanol i Swyddi Tai Cymru a thudalennau gyrfa a chafodd y ffilm ei gweld dros 2,000 o weithiau.



Rebecca Goodhand
Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata
rebecca-goodhand@chcymru.org.uk
02920 674 812 | @rebeccag_chc

Fedrwn ni ddim aros i weld canlyniadau'r ymgyrch a byddwn yn gweithio'n agos gyda swyddogion Adnoddau Dynol a Chyfathrebu yn y sector i barhau i fagu momentwm.

Gofynnir i chi anfon unrhyw straeon sydd gennych i Catrin Harries ar catrin-harries@chcymru.org.uk.

Fel bob amser, rydym wedi parhau i ddylanwadu ar yr agenda newyddion yn ystod y tri mis diwethaf, gan sicrhau 28 darn o sylw mewn cyfryngau targed print, darlledu ac ar-lein ar bynciau yn cynnwys yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy, fforddiadwyedd a datcarboneiddio.

Crynodeb Wythnosol 2 3

Ein gwaith yw eich hysbysu am y newyddion a datblygiadau diweddar perthnasol i'r sector. Un ffordd y gwnawn hyn yw drwy'r Crynodeb Wythnosol, lle rydym hefyd yn rhannu'r diweddaraf ar ein gwaith polisi, gwybodaeth am ein digwyddiadau a hyfforddiant a newyddion gan drydydd partïon megis Llywodraeth Cymru.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr y caiff ein cyfathrebiadau eu targedu gymaint ag sydd modd. Gallwch drin eich dewisiadau (yn cynnwys dewis iaith) drwy lenwi'r arolwg cyflym [yma](#).



Rebecca Goodhand
Rheolydd Cyfathrebu a Marchnata
rebecca-goodhand@chcymru.org.uk
02920 674 812 | @rebeccag_chc

Diweddariad staffio 3

Mae nifer o staff newydd wedi ymuno â'r tîm y chwarter yma.

Mae Rhea Stevens yn Bennaeth Polisi a Materion Allanol, wrth ochr ei chyd Bennaeth, Aaron Hill. Angharad Young yw Rheolydd Datblygu Busnes CHC ac mae wrthi'n gweithio ar strategaeth newydd Datblygu Busnes i wella ein cynnig i'r cymdeithasau tai sy'n aelodau CHC a'n haelodau masnachol.

Dechreuodd Bryony Haynes ar swydd Cymhorthydd Polisi a Materion Allanol a bydd yn helpu i gefnogi'r Tîm Polisi a Materion Allanol sydd newydd ei ailstrwythuro.

Mae Bethan Proctor wedi dechrau yn ei swydd fel Rheolydd Polisi a Materion Allanol, wrth ochr ei chyd reolwyr Hayley MacNamara a Will Atkinson.

Rydym wrthi'n recriwtio ar gyfer Rheolydd Polisi a Materion Allanol rhan-amser (21 awr/3 diwrnod yr wythnos). [Mae mwyl o wybodaeth ar gael yma.](#)



Phillipa Knowles
Cyfarwyddydd Adnoddau
a Datblygu Sefydliadol
phillipa-knowles@chcymru.org.uk
02920 674 813 | @philchcymru



www.chcymru.org.uk